



Joint Council for
Qualifications

Canllaw i brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu

Cyfres arholiadau Mehefin 2020

**At sylw penaethiaid canolfannau, arweinwyr hŷn
mewn ysgolion a cholegau a staff addysgu**

Cynhyrchwyd ar ran:



Tudalen	Gynnwys
Cyflwyniad	1
Pwy sy'n cael apelio a pha bryd?	2
Sut i apelio	3
Beth sy'n digwydd yn ystod yr adolygiad cychwynnol	5
Sut i ofyn am adolygiad annibynnol	6
Beth sy'n digwydd yn ystod adolygiad annibynnol	7
Llwybrau apelio pellach	8
Graddfeydd amser	8
Adolygiad o benderfyniadau gweinyddol eraill	8
Atodiad A – Manylion cyswllt cyrff dyfarnu	9

Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen ganllaw hon yn trafod y broses i'w defnyddio wrth apelio yn erbyn canlyniadau a gyhoeddwyd yn haf 2020 gan gyrrff dyfarnu'r CGC ac yn ymwneud â'r cymwysterau canlynol:

TGAU, TAG UG, Safon Uwch, Cymhwyster y Project Estynedig, Dyfarniad Uwch Estynedig mewn Mathemateg a Bagloriaeth Cymru

Os nad yw'r cymhwyster sy'n berthnasol i chi wedi'i gynnwys yma, yna dylech gyfeirio at ddogfennau'r corff dyfarnu unigol.

2. Proses apelïadau eithriadol yw hon. Daeth yn sgil y cyfarwyddyd i ganslo cyfres arholïadau haf 2020 ar gyfer cymwysterau TGAU, TAG UG a Safon Uwch yn dilyn yr achos COVID-19 a'r trefniadau a wnaed wedyn gan y rheoleiddwyr i sicrhau bod cymaint â phosibl o ymgeiswyr yn gallu derbyn cymwysterau'n seiliedig ar ganlyniadau wedi'u cyfrifo.
3. Derbyniodd y rheoleiddwyr gyfarwyddyd i ddatblygu proses apelïadau sy'n canolbwyntio ar fanwl gywirdeb a chymhwysiad y data a ddarparwyd, yn hytrach na herio barn broffesiynol athrawon ynghylch gallu'r myfyrwyr unigol. Dyma'r cyd-destun a ddefnyddir gan y cyrrff dyfarnu i ymdrin ag apelïadau'n ymwneud â chyfres arholïadau haf 2020, yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol Anghyffredin CCCovid a gyhoeddwyd gan y rheoleiddwyr.
4. Dylid codi unrhyw bryderon y gallai ymgeisydd neu grŵp o ymgeiswyr fod wedi bod yn destun tuedd neu wahaniaethu yn uniongyrchol â'r ganolfan gan eu huwchgyfeirio drwy broses gwynion/apelïadau mewnol y ganolfan honno. Hefyd, gellir cyflwyno tystiolaeth o duedd, gwahaniaethu neu unrhyw weithredu amhriodol gan ganolfan i gorff dyfarnu. Efallai y bydd y corff hwn wedyn yn ymchwilio i'r mater fel camymddwyn honedig.
5. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i apêl ar gyfer canlyniad a gyhoeddwyd yn haf 2020 yn unig. Bydd dogfen y CGC
Canllaw i brosesau apelïadau'r cyrrff dyfarnu: Yn dod i rym o 15 Awst 2019, yn berthnasol o hyd ar gyfer apelio unrhyw ganfyddiad o gamymddwyn, neu'r sancsiwn a gymhwyswyd. Nid yw apelïadau yn erbyn canlyniadau gwasanaethau ar ôl y canlyniadau, trefniadau mynediad, addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig yn berthnasol ar gyfer cyfres haf 2020.
6. Lluniwyd y gweithdrefnau hyn er mwyn bodloni'r amodau fframwaith rheoleiddio anghyffredin sydd ar waith yn haf 2020, yn ogystal â'r amodau lefel gyffredinol/safonol a chymhwyster perthnasol, y tri rheoleiddiwr cymwysterau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (Cymwysterau Cymru, Ofqual a CCEA Regulation). Mae eu dogfennaeth reoleiddiol yn sail i brosesau apelïadau'r cyrrff dyfarnu.
7. Mae'r cyrrff dyfarnu'n codi ffi am bob cam o apêl yn erbyn canlyniadau. Mae manylion am y ffioedd hyn ar gael gan y corff dyfarnu dan sylw. Ad-delir y ffi os bydd yr apêl yn cael ei gadarnhau, heblaw am achosion lle mae'r rheswm y cadarnheir yr apêl yn wall gan y ganolfan.

Pwy sy'n cael apelio a pha bryd?

8. Ac eithrio lle y nodir isod, **rhaid** i bennaeth y ganolfan awdurdodi apelïadau, ar ran unrhyw ymgeiswyr y darparwyd data ar eu cyfer at ddibenion cyfrifo gradd mewn cymhwyster perthnasol. Mae hyn yn cynnwys ymgeiswyr preifat.

Yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ni chaiff ymgeiswyr ac/neu eu rhieni/gofalwyr apelio'n uniongyrchol i gorff dyfarnu. Yng Nghymru, yn ôl diffiniad Cymwysterau Cymru, gall ymgeiswyr preifat na chyflwynwyd unrhyw ddata asesu canolfannau ar eu cyfer ac y cyfrifwyd eu canlyniadau gan y corff dyfarnu apelio'n uniongyrchol i'r corff dyfarnu.

Gall ymgeiswyr yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon nad oes hawl ganddynt i apelio'n uniongyrchol i'r corff dyfarnu gyflwyno achos i'r pennaeth yn y ganolfan a gyflwynodd wybodaeth i'r corff dyfarnu ar ran yr ymgeisydd hwnnw. Mae penderfyniad pennaeth y ganolfan ar p'un a ddylid symud ymlaen ag apêl yn dibynnu ar drefniadau apêl mewnol y ganolfan.

Rhaid i ganolfannau gael trefniadau priodol ar waith sy'n caniatáu i ymgeiswyr wneud y canlynol:

- a. gwneud cais i'r ganolfan i ofyn am y canlynol:
 - gwybodaeth berthnasol oddi wrth y cyrff dyfarnu o ran eu canlyniad(au); a
 - chyflwyno apêl gan y ganolfan ar eu rhan; ac
- b. apelio unrhyw benderfyniad gan y ganolfan na ddylid cyflwyno cais o'r fath, ac i'r ganolfan benderfynu'r apêl honno.

Rhaid i ganolfannau wneud yn siŵr bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r trefniadau hyn cyn cyhoeddi'r canlyniadau, gan ymateb yn brydlon, pan ofynnir am hynny, â gwybodaeth yn esbonio'r trefniadau.

9. Ni ellir cyflwyno apelïadau cyn diwrnod y canlyniadau swyddogol, rhaid eu cefnogi â thystiolaeth a rhaid iddynt esbonio'n glir beth yw sail yr apêl ym mhob achos.
10. Gellir cyflwyno apêl os yw pennaeth y ganolfan yn ystyried:
- a. na wnaeth y corff dyfarnu roi'r gweithdrefnau ar waith yn gyson, neu na ddilynwyd y gweithdrefnau'n gywir ac yn deg; neu
 - b. p'un a ddefnyddiodd y corff dyfarnu'r data anghywir wrth gyfrifo canlyniadau; neu
 - c. p'un a gyhoeddwyd y canlyniad a gynhyrchwyd yn anghywir gan y corff dyfarnu i un neu fwy o ymgeiswyr.
11. Mae'r data anghywir dan 10b yn cynnwys y canlynol:
- darparodd y ganolfan y data anghywir (gwall canolfan) i'r corff dyfarnu; neu
 - defnyddiodd y corff dyfarnu set ddata anghywir, sy'n cynnwys trawsleoli setiau data o ddwy neu fwy o ganolfannau (gwall corff dyfarnu); neu
 - cyflwynodd y corff dyfarnu wallau i mewn i'r set ddata benodol (gwall corff dyfarnu); neu
 - mewn amgylchiadau eithriadol, y ganolfan yn cadarnhau ffactor eithriadol sy'n tanseilio'r dybiaeth mai defnyddio set ddata diofyn yw'r sail fwyaf priodol ar gyfer cyfrifo canlyniadau. Byddai hyn yn gofyn i ganolfan benderfynu nad yw ei charfanau blaenorol o ymgeiswyr yn ddigon cynrychiadol o garfan 2020 i allu llywio cyfrifiad y canlyniadau'n ddibynadwy.

12. Ni ellir apelio mewn perthynas â gwall mewn set ddata a bennwyd gan y rheoleiddwyr mewn gofynion a gyhoeddwyd dan Amod GQCov3.2(a)(i) lle na chyflwynodd y corff dyfarnu'r gwall hwnnw.
13. Bydd gwefan CGC yn cynnwys senarios posibl ar gyfer apelio, yn ôl manylion y rhesymau a nodir **ym mharagraffau 10 ac 11** uchod, - <https://www.jcq.org.uk/exams-office/appeals/>

Sut i apelio

14. Dau gam sydd i'r broses apeliadau. Yn gyntaf, yr adolygiad cychwynnol (i'w gynnal gan y corff dyfarnu); yn ail, yr adolygiad annibynnol. Dylai'r cais am adolygiad cychwynnol fod yn ddechrau pob apêl bob amser. Ymhlith cyfeiriadau at "y ganolfan" yma mae cyfeiriadau at ymgeisydd preifat o ran y rheini yng Nghymru y mae hawl ganddynt i apelio (**gweler paragraff 8**).
15. Darperir digon o wybodaeth gan y cyrff dyfarnu fel y gall canolfannau benderfynu'n wybodus p'un a ydynt am apelio ai peidio. Darperir data o'r fath gyda'r canlyniadau neu ar gais ac efallai y bydd y cyrff dyfarnu'n codi tâl am y wybodaeth hon. Dylai canolfannau gyfeirio at ganllawiau'r corff dyfarnu unigol am fanylion pellach ynghylch cael mynediad at y wybodaeth hon.
16. Cafodd y data a ddefnyddir i gyfrifo canlyniadau eu categoreiddio yn y grwpiau canlynol:

A: Data ymgeisydd a dderbyniwyd gan y ganolfan	B: Data ymgeiswyr a chanolfannau y rhoddodd y corff dyfarnu i mewn i'r model
Gradd Asesu Canolfannau (GAC) Trefn Restrol (TR)	Gradd Asesu Canolfannau (GAC) Trefn Restrol (TR) Data hanesyddol Cyrhaeddiad blaenorol

(Sylwer: o ran cymwysterau CCEA, dim ond wrth ddyfarnu'r graddau UG y mae data cyrhaeddiad blaenorol yn berthnasol.)

17. Dylai canolfannau ystyried yn ofalus y wybodaeth a ddarperir ynghyd â'r rhesymau dros apelio a nodir **ym mharagraffau 10 ac 11**. Os oes gan y ganolfan unrhyw reswm i gredu bod methiant wedi bod o ran gweithdrefnau, gwall yn y data neu wall gweinyddol, gellir cyflwyno cais am apêl (gan gynnwys y dystiolaeth i gefnogi'r apêl honno) i'r corff dyfarnu perthnasol. Os yw gwall yn y data yn rheswm dros yr apêl rhaid nodi yn y cais i ba gategorïau data (A-B) y mae'r her hwn yn berthnasol
18. Rhaid i bennaeth y ganolfan awdurdodi'r cais am apêl gan fod yn fodlon hefyd bod yr holl ymgeiswyr y cyflwynir apêl ar eu rhan wedi cydsynio i'r apêl hon. Dylid cyflwyno'r apêl gan ddilyn canllawiau'r corff dyfarnu perthnasol. Mae rhestr o fanylion cyswllt y cyrff dyfarnu ar gael yn **Atodiad A, tudalen 9**.
19. Mewn achos lle mae'r garfan yn gweithredu ar draws cyrff dyfarnu, dylai'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu wnaeth gyhoeddi'r canlyniad(au).
20. **Rhaid cyflwyno ceisiadau am adolygiad cychwynnol erbyn dydd Iau 17 Medi 2020.**
21. Yn nogfennau'r apêl rhaid nodi'n glir ac yn gryno beth yw'r rhesymau dros apelio a chynnwys y dystiolaeth sydd gan y ganolfan i gefnogi'r apêl. Mae'n bosibl na fydd cyrff dyfarnu'n derbyn apeliadau os nad yw sail a rhesymau'r apeliadau hynny'n rhai clir.

22. Pan gyflwynir apêl o ran data Categori A (h.y. y data ymgeisydd a gyflwynodd y ganolfan), rhaid i'r ganolfan ddarparu tystiolaeth o'u gwaith a chynnwys y data ymgeisydd wedi'u cywiro a ddylai fod wedi'u darparu yn y lle cyntaf i'r corff dyfarnu. Mae angen cynnwys esboniad hefyd i nodi pam y gwnaed y gwall hwn a sut y digwyddodd. **Rhaid darparu data Categori A wedi'u cywiro ar gyfer y garfan gyfan Rhaid** i'r ganolfan gyfeirio at bob un o wallau'r ganolfan yn ymwneud â charfan y pwnc mewn un apêl.
23. Os yw canolfan yn credu bod gwall neu fater cyffredin wedi effeithio ar fwy nag un ymgeisydd yn y garfan, mae'r cyrff dyfarnu'n disgwyl i'r ganolfan enwi pob un o'r ymgeiswyr dan sylw mewn un cais apêl, ni ddylent gyflwyno ceisiadau dros ymgeiswyr unigol.
24. Gallai unrhyw weithredu ar ran y corff dyfarnu i gywiro gwall a nodwyd fel canlyniad apêl arwain at raddau'n cael eu codi neu'n aros yr un peth i'r ymgeiswyr hynny y cyflwynwyd yr apêl ar eu rhan.
25. Pan fydd cais am apêl yn cael ei dderbyn, bydd y corff dyfarnu yn penderfynu p'un a fydd yn cael ei dderbyn ar gyfer adolygiad cychwynnol ai peidio. Mae'r penderfyniad a ddylid derbyn y cais am apêl ai peidio yn seiliedig ar:
- p'un a yw'r rhesymau dros apelio a gyflwynir gan y ganolfan yn bodloni'r meini prawf a nodir uchod;
 - p'un a oes digon o dystiolaeth neu dystiolaeth briodol wedi'i darparu i gefnogi'r apêl (yn enwedig pan gyflwynir yr apêl ar sail gwall gan y ganolfan);
 - p'un a gyflwynwyd yr apêl o fewn yr amserlen a gyhoeddwyd;
 - p'un a awdurdododd Pennaeth y Ganolfan yr apêl; a
 - chydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion eraill a allai fod wedi'u pennu gan y corff dyfarnu mewn perthynas â chyflwyno apêl.

Gofynnir i ganolfannau gadarnhau nad oes unrhyw wallau yn y data canolfan cyn cyflwyno apêl am resymau eraill.

26. Os na dderbynnir cais am apêl ar gyfer adolygiad cychwynnol, cyfathrebir â'r ganolfan i nodi beth yw'r rheswm (rhesymau) dros hyn.

Beth sy'n digwydd yn ystod yr adolygiad cychwynnol?

27. Gan ddibynnu ar y rhesymau dros yr apêl a gyflwynwyd, mae'r adolygiad cychwynnol yn cynnwys gwirio'r data neu'r weithdrefn neu'r broses sy'n berthnasol gan aelod o staff y corff dyfarnu. Bydd yr unigolyn hwnnw'n gymwys i ddilysu'r weithdrefn a'r broses a ddilynwyd neu'r data a ddefnyddiwyd i adrodd am ganlyniad ac ni fydd ganddo unrhyw fudd personol yn y penderfyniad sy'n cael ei apelio.
28. Er mwyn amddiffyn uniondeb y broses, gellir gofyn i'r corff dyfarnu, yn ôl ei ewyllys, am wybodaeth a thystiolaeth bellach. Gellir gwneud hyn yn benodol lle y gwnaed apêl oherwydd bod y ganolfan wedi gwneud gwall yn y data a gyflwynwyd ganddi (Data Categori A). Gall yr adolygwr ystyried unrhyw arweiniad a gyhoeddwyd gan y rheoleiddiwr perthnasol.
29. Yn ystod yr adolygiad cychwynnol, bydd yr apêl naill ai'n cael ei gwrthod (ddim yn cael ei chaniatáu) neu ei chadarnhau (ei chaniatáu) yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Hyd yn oed os yw'r adolygiad cychwynnol yn cael ei wrthod neu ei gadarnhau, gall y ganolfan fynd ymlaen i adolygiad annibynnol.
30. Os caiff yr achos ei gadarnhau, ymgwymerir ag unrhyw weithredu pellach angenrheidiol i gywiro/lliniaru unrhyw wallau. Gall hyn gynnwys gweithredu mewn perthynas â chanlyniadau ymgeiswyr eraill a effeithiwyd ond na enwyd yn yr apêl. Bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei gynnal drwy gydymffurfio'n llawn â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt rhwng byrddau'r CGC a'r cyrff dyfarnu.
31. Anfonir llythyr yn nodi canlyniad yr adolygiad cychwynnol, gan roi penderfyniad y corff dyfarnu ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad, at y ganolfan. Bydd y llythyr hwn hefyd yn cynnwys manylion am gam nesaf y broses apelïadau.
Yn dilyn yr adolygiad cychwynnol, gall y ganolfan wneud cais i barhau â'r apêl i'w hadolygu'n annibynnol.

Sut i ofyn am adolygiad annibynnol

32. Os yw pennaeth y ganolfan am fynd â'r apêl ymlaen i'r cam nesaf (adolygiad annibynnol), rhaid anfon y cais yn electronig i'r corff dyfarnu perthnasol.
33. **Rhaid cyflwyno cais am adolygiad annibynnol o fewn 14 diwrnod calendr i dderbyn y cyfathrebiad yn y llythyr yn rhoi canlyniad yr adolygiad cychwynnol. Bydd cyrff dyfarnu'n gwrthod apeliadau a wneir y tu allan i'r raddfa amser hon.**
34. Rhaid i bennaeth y ganolfan nodi'n glir ac yn gryno'r rhesymau dros apelio a chynnwys yr holl dystiolaeth sydd ar gael iddo i gefnogi'r apêl.
35. Dylai unrhyw ymgeisydd y cyflwynwyd yr apêl ar ei ran ar yr adeg hon fod wedi'i gynnwys yn y broses adolygiad cychwynnol.

Beth sy'n digwydd yn ystod adolygiad annibynnol?

36. Bydd y sawl sy'n cynnal ac yn penderfynu'r adolygiad annibynnol yn rhywun annibynnol. Ni fydd yr unigolyn hwn yn cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y corff dyfarnu, ni fydd yn arholwr nac yn gymedrolwr sy'n gweithio i'r corff dyfarnu ac ni fydd yn gysylltiedig â'r corff dyfarnu mewn unrhyw ffordd arall.
37. Pan gyflwynir cais am adolygiad annibynnol gan ganolfan cedwir yr hawl gan y corff dyfarnu i lunio deunydd mewn ymateb. Os yw'r corff dyfarnu'n gwneud hynny, darperir copi o'r deunydd hwnnw i'r ganolfan, er gwybodaeth, cyn canlyniad yr adolygiad annibynnol.
38. Bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniadau'n annibynnol yn derbyn unrhyw ganllawiau perthnasol am apeliadau a gyhoeddwyd gan y rheoleiddiwr perthnasol, y rhesymau dros apelio a thystiolaeth ategol gan y ganolfan, y wybodaeth a ddarparwyd i'r ganolfan gan y corff dyfarnu, y cais am adolygiad cychwynnol, canlyniad yr adolygiad cychwynnol a, lle y bo'n gymwys, unrhyw ddeunydd a luniwyd gan y corff dyfarnu mewn ymateb i'r cais am adolygiad annibynnol.
39. Bydd yr adolygiad annibynnol yn ail-archwilio'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y corff dyfarnu ac ar ei gyfer.
40. Bydd y prawf a ddefnyddir gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n annibynnol yn ystyried unrhyw ganllawiau gan y rheoleiddiwr perthnasol ac yn ystyried y canlynol:
 - p'un a gymhwysodd y corff dyfarnu ei weithdrefnau'n gyson, ac a ddilynwyd ei weithdrefnau'n gywir ac yn deg wrth adrodd ar ganlyniadau; neu
 - p'un a ddefnyddiodd y corff dyfarnu'r data anghywir wrth gyfrifo canlyniadau; neu
 - p'un a gyhoeddwyd y canlyniad a gynhyrchwyd yn anghywir gan y corff dyfarnu i un neu fwy o ymgeiswyr.
41. Bydd y sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n annibynnol yn ystyried y rhesymau a gyflwynwyd dros yr adolygiad annibynnol a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y ganolfan a'r corff dyfarnu.
42. Bydd aelod o staff y corff dyfarnu ar gael i gefnogi'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n annibynnol ac yn ei gynorthwyo i gael gwybodaeth neu eglurhad pellach naill ai gan y corff dyfarnu neu'r ganolfan os yw'n ystyried bod angen hynny i allu dod i benderfyniad. Ni fydd gan yr aelod o staff unrhyw fudd personol yn y penderfyniad i'w apelio ac ni fydd yn cymryd unrhyw ran yn ystyriaethau'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n annibynnol.
43. Wrth ddod i benderfyniad, bydd y sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n annibynnol yn rhoi ar waith y prawf a nodir **ym mharagraff 40**. Lle y bo'n briodol gwneud hynny, byddan nhw hefyd yn ystyried p'un a fydd unrhyw weithredu adferol ar ran y corff dyfarnu yn ddigonol i gywiro'r mater.
44. Efallai y bydd y sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n annibynnol yn penderfynu cadarnhau (caniatáu) yr apêl neu ei gwrthod (ddim yn caniatáu). Os bydd yr apêl yn cael ei chadarnhau, bydd y sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n cyfeirio'r mater yn ôl i'r staff yn y corff dyfarnu priodol i'w ystyried ymhellach yn ôl unrhyw gyfarwyddyd y gall y sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n annibynnol ei roi.
45. Heb ystyried a gaiff yr apêl ei chadarnhau ai peidio, efallai y bydd y sawl sy'n gwneud penderfyniadau'n annibynnol yn gwneud argymhellion i'r corff dyfarnu ynghylch unrhyw faterion/pryderon a gododd wrth ystyried yr apêl.
46. Ysgrifennir at y ganolfan yn rhoi'r penderfyniad annibynnol, gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad.
47. **Yr adolygiad annibynnol fydd yn cwblhau gweithdrefnau apeliadau mewnol y corff dyfarnu.**

Llwybrau apelio pellach

48. **Yn achos canolfannau (a rhai ymgeiswyr preifat yng Nghymru, gweler paragraff 8)**, os bydd anfodlonrwydd o hyd â'r penderfyniad o ganlyniad i adolygiad annibynnol, gellir apelio i'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau (EPRS) perthnasol a bydd manylion pellach am hyn i'w gweld yn y llythyr sy'n nodi canlyniad yr adolygiad annibynnol.
49. Dylid edrych ar wefan y rheoleiddiwr cymwysterau perthnasol i gael gwybod mwy am y broses o wneud cais i'r EPRS.
50. **Rhaid apelio i'r rheoleiddwyr o fewn y terfynau amser a nodir gan bob rheoleiddiwr.**

Graddfeydd amser

51. Mae'r cyrff dyfarnu'n anelu at gwblhau'r adolygiadau cychwynnol o fewn **42 diwrnod calendr** i dderbyn y cais.

Pryd bynnag y bo'n bosibl gwneud hynny, bydd y cyrff dyfarnu'n anelu at gwblhau adolygiadau cychwynnol yn gynt nag o fewn 42 diwrnod er mwyn i'r canolfannau dderbyn y canlyniad cyn gynted â phosibl. Byddan nhw'n gwneud eu gorau glas os yw'r adolygiad cychwynnol yn cynnwys ymgeisydd y mae angen iddo gael canlyniad ar fyrder oherwydd cynnig/terfyn amser UCAS.
52. Mae'r cyrff dyfarnu hefyd yn anelu at gwblhau'r adolygiadau cychwynnol o fewn **42 diwrnod calendr** i dderbyn y cais.

Adolygiad o benderfyniadau gweinyddol eraill

53. Gall fod rhai sefyllfaoedd eraill sydd wedi effeithio ar ymgeisydd, na fyddent yn rhan o'r broses apelïadau ffurfiol. Os bydd angen i'r corff dyfarnu arfer ei farn o ran y rhain, gallant gael eu hadolygu gan swyddogion y corff dyfarnu.
54. Yn haf 2020, gall penderfyniadau gweinyddol o'r fath gynnwys cais am gofrestrïad hwyr, ar ôl adrodd ar y canlyniadau.
55. Dylai pennaeth canolfan sydd am ofyn am adolygiad o'r fath gyfeirio at ddogfen y CGC *Canllaw i brosesau apelïadau'r cyrff dyfarnu*, llenwi'r ffurflen (JCQ/App1) a'i chyflwyno i'r corff dyfarnu gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd yn y ddogfen.

Atodiad A

Manylion cyswllt y cyrff dyfarnu

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y broses apeliadau i'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid perthnasol ym mhob corff dyfarnu.

AQA

I gyflwyno cais am adolygiad cychwynnol, dylid llwytho i lawr yr Adroddiad Safoni AQA ar gyfer y pwnc rydych chi am ei apelio. Mae'r adroddiadau i'w cael yn e-AQA Results > e-Documents. Bydd yr adroddiad yn cynnwys cyswllt i'r ffurflen gwe adolygiad cychwynnol y byddwch chi'n ei defnyddio i gyflwyno eich cais.

Dylech ddilyn y cyfarwyddiadau yn llythyr canlyniad yr adolygiad cychwynnol i gyflwyno eich cais am adolygiad annibynnol, ac anfon eich cais dros e-bost i appeals@aqa.org.uk

City & Guilds

policy@cityandguilds.com

CCEA

Ar gyfer Adolygiadau Cychwynnol - postresults@ccea.org.uk

Ar gyfer Adolygiadau Annibynnol - appealsmanager@ccea.org.uk

OCR

Dylai canolfannau ddefnyddio OCR Interchange i wneud cais am adolygiad cychwynnol - <https://interchange.ocr.org.uk/>

Dylech ddilyn y cyfarwyddiadau yn llythyr canlyniad yr adolygiad cychwynnol i gyflwyno eich cais am adolygiad annibynnol, ac anfon eich cais dros e-bost i 2020Appeals@ocr.org.uk

Pearson

Dylai canolfannau ddefnyddio Edexcel Online i wneud cais i apelio - <https://edexcelonline.pearson.com/>

CBAC

Dylai canolfannau ddefnyddio gwefan ddiogel CBAC i wneud cais am apel - <https://www.wjecservices.co.uk/>